

Lansio ymgynghoriad cyn newidiadau posibl i reolaethau mewnforio Fukushima

Mae rheolaethau wedi cael eu gosod ar fewnforion bwyd o Japan gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) ers digwyddiad niwclear ym mis Mawrth 2011.

Mae'r ASB bellach yn cynnal adolygiad arfaethedig o'r rheolaethau hyn i ddarparu cyngor ar ddiogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd i Weinidogion, felly gellir gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen y rhain wrth symud ymlaen.

Gellir mewnforio mwyafrif y cynhyrchion bwyd o Japan eisoes heb unrhyw gyfyngiadau na gwiriadau ar lefelau ymbelydredd. Fodd bynnag, mae rheolaethau yn parhau ar waith ar gyfer nifer cyfyngedig o gynhyrchion o rai rhanbarthau yn Japan.

Mae hyn wedi effeithio nifer o rywogaethau pysgod, madarch gwyllt a llyisiau Japaneaidd wedi'u fforio yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r cyfrifoldeb am ddadansoddiad risg diogelwch bwyd radiolegol, sydd dros y degawd diwethaf wedi arwain at leihau cyfyngiadau yn raddol, wedi dod bellach i ran yr ASB ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban yn yr Alban, yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Mae gwyddonwyr yr ASB, gyda chymorth COMARE – Pwyllgor arbenigol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd – wedi dod i'r casgliad y byddai cael gwared ar y lefel uchaf o 100 becquerel y cilogram (Bq/kg) ar gyfer radiocesium (ffurfiau ymbelydrol cesium) ar gyfer bwyd sy'n cael ei fewnforio o Japan i'r DU yn arwain at gynydd dibwys mewn ymbelydredd ac unrhyw risg gysylltiedig i ddefnyddwyr y DU.

Cyhoeddwyd yr [asesiad risg gwyddonol](#) er gwybodaeth ac mae ar gael i'w weld ar-lein.

ASB yn Esbonio

Becquerel yw'r uned fesur safonol ar gyfer ymbelydredd, neu yn yr achos penodol hwn o radiocesium – isotop ymbelydrol o gesium, a ffurfir yn dilyn damwain niwclear. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n tudalen we [ymbelydredd mewn bwyd](#).

Mae ymgynghoriad cyhoeddus bellach yn cynnig cyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd ehangach ddweud eu dweud ar y camau posibl nesaf ar gyfer y DU.

Mae'r rhain yn cynnwys cadw'r rheolaethau cyfredol, eu tynnu'n llwyr, neu gymhwyso'r rheolaethau i hyd yn oed nifer llai o gynhyrchion.

Meddai Rebecca Sudworth, Cyfarwyddwr Polisi'r ASB:

“Rhoddwyd rheolaethau mewnforio ar waith i ddechrau fel mesurau brys yn dilyn digwyddiad niwclear Fukushima yn 2011. Dim ond mewn symiau bach y mae'r

cynhyrchion hyn yn cael eu mewnfurio i'r DU, yn bennaf ar gyfer pobl â deiet Japaneaidd a bwytaï sy'n arbenigo mewn bwyd Japaneaidd.

"Ers hynny, adolygwyd y rheoliadau hyn yn rheolaidd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r cyfrifoldeb hwn bellach wedi'i drosglwyddo i'r ASB, ynghyd â FSS, ac rydym ni wedi cwblhau asesiad risg i fewnfurio i'r DU ac asesiad effaith economaidd. Rydym ni'n croesawu pob barn ar newidiadau posibl i'r rheolaethau, cyn i ni gynghori Gweinidogion ar y camau nesaf.

"Ein blaenoriaeth trwy gydol y broses hon yw diogelwch bwyd, ac mae buddiannau defnyddwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor annibynnol arbenigol yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf i sicrhau bod yr holl fewnforion bwyd i'r DU yn cydymffurfio â'n safonau uchel presennol ac yn diogelu buddiannau defnyddwyr."

Mae'r [ymgyngoriad ar gael ar wefan yr ASB](#), ac mae angen ymatebion erbyn 11 Chwefror 2022.

I gael rhagor o wybodaeth am ein proses asesu, rheoli a chyfleu risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, gwylwch ein fideo '[ASB yn Esbonio: Dadansoddi Risg](#)'.